

Yma o hyd - mis  
Medi!

# Wilia

RHIF 438

MEDI 2021

PAPUR MISOL CYMRAEG

ABERTAWE

## Swyddog Mynediad i rai ag anabledd yng Nghlwb Pêl droed Abertawe



Pan roedd yno, roedd yn mynd o gwmpas mewn cadair olwyn; gyda champws Prifysgol Aberystwyth ar ben rhiw serth Penglais, doedd hynny ddim yn ddelfrydol. "Mae Penglais yn ddi-ddorol i drafael i mewn i lectures! Fi wedi cael cwpl o sefyllfaoedd lle fi'n styc tu fas i lec-

Beth bynnag fydd yn digwydd ar y cae pêl-droed yn Abertawe y tymor hwn, **mae'r clwb wedi cymryd cam pwysig i helpu pobl sy'n dioddef o anabledd**

Mae Mark Phillips yn cofio'r diwrnod y dywedodd ei dad wrtho fod ganddo ddau ddewis mewn bywyd - naill ai ei-stedd i lawr a bod yn drist neu weithio'n galed a phrofi pawb yn anghywir"

"Es i am *option two* a sa'i erioed wedi edrych nôl," meddai Mark a gafodd ei eni 11 wythnos yn gynnar gyda Pharlys yr Ymennydd.

Cafodd Mark ei benodi yn swyddog mynediad anabl cyntaf Clwb Pêl-droed Abertawe pan oedd yn 28 mlwydd oed.

Eglurodd sut mae ei agwedd bositif tuag at fywyd ac at ei anabledd ei hun wedi arwain at yrfa o helpu pobl eraill sydd ag anabledd wrth sgwrsio gyda Hanna Hopwood ar [raglen Radio Cymru, Gwneud Bywyd yn Haws](#).

Wedi ei fagu yng Nghaerfyrddin aeth Mark i astudio'r gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth.

tures neu'n styc ar yr hewl achos oedd teiar wedi dod bant o'r olwyn! Oedd e *definitely* yn *learning curve!*"

Fe roddodd Mark adborth i awdurdodau'r brifysgol am y ddarpariaeth i bobl anabl a beth allen nhw ei wneud i'w wella.

"Fi wastad ti bod fel'na, wastad yn fodlon siarad am beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio i bobl. Chi ffili cau fi lan, 'na beth yw'r broblem!"

Yn y brifysgol y sylweddolodd ei fod eisiau defnyddio ei arbenigedd a'i brofiadau ei hun o ymdopi gyda bywyd i helpu eraill ac roedd yn gweithio fel ymgynghorydd byw yn an-nibynnol cyn y swydd gyda'r Elyrch.

Un o'r datblygiadau mae fwyaf balch ohonynt nhw ers iddo ddod i glwb Abertawe gyntaf

ydy'r [ystafell synhwyr](#) sydd wedi ei greu yn y stadiwm yn arbennig i bobl sydd â chyflyrau fel awtistiaeth fedru dod i fwynhau gêm gyda'u teulu.

"Y syniad yw cael lle yn y stadiwm lle mae pobl yn gallu gweld y gêm fel teulu... a mynd nôl mewn i'r *sensory room* os yw'r swm yn ormod," eglura Mark

Mae'n golygu bod yr unigolion ag awtistiaeth yn gallu cael y profiad o ddod i wyllo gêm mewn awyrgylch sy'n teimlo'n ddiogel, ond mae'n werth y byd i'r teulu hefyd - mae'n wên mae wedi ei gweld ar eu hwynebau ar ôl iddyn nhw allu mwynhau gwyllo gêm gyda'i gilydd yn dweud y cyfan meddai Mark.

**Diolch i Cymru Fyw am yr erthygl.**

## GWYL TAWE

Cynhaliodd y Fenter Iaith Wyl Gerddoriaeth fywiog ddydd Sadwrn Cyntaf Medi, ger y Railway Inn, Cilã, gyda grwpiau poblogaidd Bwca, Mari Mathias a Phapur Wal . Cafodd yr wyl ei chefnogi gan Dysgu Cymru—Ardal Bae Abertawe a Swansea Music Hub.



## ENILLYDD YSGOLOR-IAETH CYMDEITHAS Y DDRAMA GYMRAEG ABERTAWE 2021

Mae'n bleser gan Gymdeithas y Ddrama Gymraeg Abertawe gyhoeddi enw enillydd ysgoloriaeth y Gymdeithas am eleni.

Penderfyniad y panel gwobrwyo, Ioan Hefin, Rhian Morgan ac Elinor Wyn Reynolds oedd **dyfarnu'r wobr o £2,000** i Gwern Phillips o Aberteifi.

Wedi graddio mewn BA Theatr a Drama ym Mhrifysgol Caerdydd a chwblhau cwrs hyfforddi athrawon yn Abertawe, mae Gwern ar fin dilyn cwrs MA Actio yn yr Arts Ed School of Acting yn Chiswick, Llundain. Mae eisoes **wedi magu cryn brofiad fel actor, o'i ddyddiau** gydag Ysgol y Preseli, Cwmni Ieuencid Cymraeg Aberteifi a Theatr Bro Preseli i rannau teledu niferus mewn cynyrchiadau i S4C. Mae hefyd yn wyneb cyfarwydd bellach ar raglen Stwnsh Sadwrn.



Mae'r ysgoloriaeth flynyddol yn agored i unigolion 18+ oed (**ar 1 Medi'r flwyddyn berthnasol**) sydd â'u bryd ar ddilyn cwrs gradd, ôl-radd neu gyfatebol yn un o ddisgyblaethau creadigol y ddrama: actio, sgrïptio, cynhyrchu neu gyfarwyddo.

Sefydlwyd yr ysgoloriaeth yn 2014 fel rhan o waith y **Gymdeithas o hybu'r ddrama Gymraeg yn Abertawe a'r tu hwnt**. Mae'n bleser ac anrhydedd gan y Gymdeithas fedru cynorthwyo talentau ifanc i wireddu'u breuddwydion.

(Cyhoeddir manylion Ysgoloriaeth 2022 ar Fawrth 1af y flwyddyn nesaf.)

## PREGETHU AM Y TRO OLAF AR EI BEN BLWYDD YN 90 OED

Dathlodd y Parchedig Ivor Rees ei ben blwydd yn 90 ar y 22ain o Awst, a gwnaeth hynny trwy bregethu yn Eglwys Fethodistaidd Unol Sgeti.

Penderfynodd mai hon fyddai ei bregeth olaf. Caofodd gymorth ei ferch Lythan, sydd hefyd **yn weinidog, a'i fab-yng-nghyfraith Phil**, sydd **eto'n weiniidog**.

Mae Ivor yn gyfarwydd iawn i Gymry Abertawe, ac yn Aelod brwd o nifer o gymdeithasau **Cymraeg a c eraill yn y ddinas**. Mae'n frodor o'r Rhondda, a gwyddai'n gynnar mai ar y weinidogaeth roedd ei fryd.

Bu'n gweinidogaethu mewn sawl man, gan gynnwys Port Talbot a Llundain, cyn dychwelyd i Abertawe gyda'i wraig Delyth.

Alan Sykes (organydd).

LLUN:

Y Parch Lythan Nevard (merch), Delyth, Ivor, Parch Leslie Jane Noon, gweinidog, Parch Phil Nevard (mab yng nghyfraith),



## Confident Games yn Lansio HYDERUS? - Fersiwn Gymraeg o'u Gêm Fwrdd Boblogaidd CONFIDENT?

Mae *HYDERUS?* yn lansio mewn siopau ledled Cymru ddydd Gwener yma! Yn gêm fwrdd ddwyieithog gyda chwestiynau am Gymru a'r byd, mae'n sicr o fod yn boblogaidd iawn gyda'r cyhoedd ar draws y wlad. Yn berffaith ar gyfer unrhyw Gymry – boed yn siaradwyr Cymraeg, yn ddysgwyr, yn ddi-Gymraeg neu fel anrheg i ymwelwyr -

bydd yn rhaid iddi fod ar bob rhestr siopa y Nadolig hwn! Does dim gêm well i **ddiddanu'r teulu dros gyfnod y Nadolig**.

Cafodd y gêm ei dyfeisio gan y cwpWI [Ceri Price o Lanelli a Natalie Podd o Lundain](#). Heb unrhyw brofiad blaenorol yn y diwydiant, fe wnaethant sefydlu *Confident Games* a datblygu, ariannu a lansio *CONFIDENT? yn annibynnol*. Mae Ceri'n rhedeg y busnes o ddydd i ddydd, a chan ei fod yn siaradwr Gymraeg, roedd y syniad o fersiwn Gymraeg o hyd yn agos at ei galon:

Pris argymelledig y gêm yw £22.99, a gyda phob gêm a brynir, mae coeden yn cael ei

phlannu â *Trees for the Future*. Mae'n dod gyda 200 cerdyn cwestiwn, 6 pen a bwrdd ateb *dry-wipe* a sgorfwrdd. Awgrymir ar gyfer oedranau 10 ac i fyny a gall 2 - 30 person chwarae. Lanswyd y Fersiwn Saesneg *CONFIDENT?* yn 2018 i adolygiadau wych. Daeth yn boblogaidd gyda phobl o bob oedran diolch i'w thro unigryw o ateb cwestiynau cwis gydag amrediad. Erbyn Nadolig 2020 roedd yn y 5 Gwerthwr Gorau ar Amazon



# LLWYDDIANNAU YSGOL BRYN TAWE

Llongyfarchiadau mawr i Cameron Jenkins am ddod yn ail yng nghystadleuaeth Gwobr Goffa Dafydd Rowlands eleni ac i Elisha Davies am ddod yn drydydd! Estynnwn ein llongyfarchiadau i Anest Williams o Ysgol Gŵyr a oedd yn fuddugol eleni. Diolch yn fawr i Mr John Evans am feirniadaeth gynhwysfawr a chanmoliaethus. Mae ein diolch yn fawr hefyd i'r pwyllgor am ddarparu'r cyfle unwaith eto eleni i'n pobl ifanc ac am drefnu seremoni wobrwyo rithiol hyfyd.



Plant Ysgol Gymraeg y Cwm yn ymateb i ddigwyddiad

Cafodd ddisgyblion Blwyddyn 4 a 5 Ysgol Gymraeg y Cwm eu syfrdanu a'u brawychu wrth glywed a gweld helyntion terfysgoedd ardal Mayhill ar yr 20ed o Fai eleni. Yn dilyn trafodaeth brwd yn y dosbarth y bore canlynol fe benderfynodd y plant ysgrifennu llythyron o gydymdeimlad a chefnogaeth at drigolion Mayhill ac i'r heddlu a fu'n deilio gyda'r helynt. Cafodd y llythyron yma gymaint o effaith ar y gymuned fel y clywodd y wasg am garedigrwydd a sgiliau empa-

thi plant Ysgol y Cwm. Daeth Mared Ifan o raglen Ffeil, S4C a Rob Osborne o Newyddion ITV i gyfweled â'r plant yn yr ysgol yn ddiweddar. Siaradodd y disgyblion yn ddoeth ac yn aeddfed ar y teledu am eu teimladau gan esbino'n glir taw lle braf a saff yw Abertawe mewn gwirionedd a bod ymddygiad gwrth-gymdeithasol o'r fath yn hollol annerbyniol. Yn sicr fe lwyddodd y plant i drosglwyddo arwyddair yr ysgol, sef 'Gwnewch y Pethau Bychain'.






## Gwobrau Heddychwyr Ifanc 2021

Y mae Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru ac Eisteddfod Gerddorol Rhyngwladol Llangollen yn falch o gyflwyno'r dystysgrif hon i

### Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

Am eich cyflawniad nodedig fel

*Heddychwyr Ifanc y Fflwyddyn (Gydradd 1af)*

Paratôdd criw o fl.10 fideo ar y thema 'Heddwch' ar gyfer cystadleuaeth Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru <https://youtu.be/UvNgAd1lpL0>, ac fe gyflwynon ni ein fideo Neges Heddwch ac Ewyllys Da i categori arall. Mewn un fideo, soniodd ein disgyblion am eu hawydd i gael byd lle mae pawb yn dangos cariad, yn

parchu ei gilydd, lle mae cyfle cyfartal i bawb a heddwch ar draws y byd. Cawsom dair gwobr gyntaf am ein fideos a braf oedd cael ymuo mewn seremoni wobrwyo rithiol o Langollen. Gellir gweld fideos o ymateb ein disgyblion i'r newyddion da ar gyfrif trydar yr adran.



BARBYCIW HAF  
Cynhaliodd Côr Ty Tawe ei farbyciw haf ym mis Awst, ac aelodau heb weld ei gilydd ers blwyddyn a hanner. Cafwyd amser blasus.

## Wilia Mehefin

yn ngofal Heini Gruffudd  
**Diolch yn fawr i'n cyfranwyr.**

Rhifyn Hydref: Anfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr erbyn Medi 24:  
wilia@hotmail.co.uk  
Croeso i unrhyw fath o ddeunydd; os oes gennych gerdd neu **stori sy'n hel llwch yn y drôr!**

**CYMRAEG**

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru



## Ymateb i Adolygiad Sefydlu a Symud

Comisiynwyd cwmni IAITH: y ganolfan cynllunio iaith gan Mudiad Meithrin i gynnal adolygiad o waith Cynllun Sefydlu a Symud (SAS) yn ystod y cyfnod o Ebrill 2018 i Fawrth 2021, yn benodol er mwyn dylanwadu ar siâp y rhaglen sefydlu Cylchoedd Meithrin newydd yn ystod tymor nesaf y Senedd (o 2021 i 2026).

**Credwn ei bod yn bwysig i asesu beth mae'r cynllun wedi ei gyflawni ers ei sefydlu yn Ebrill 2018, pa heriau sydd wedi codi a pha wersi sydd yn gallu cael eu dysgu ar gyfer y dyfodol.**

Mae cynllun Sefydlu a Symud (SAS) yn brosiect penodol a reolir gan Mudiad Meithrin mewn ymateb i raglen waith #Cymraeg 2050 - miliwn o siaradwyr Cymraeg, sef Strategaeth iaith a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2017. Nod y prosiect a ddechreuodd fis Ebrill 2018 yw sefydlu 40 o Gylchoedd Meithrin newydd (gyda Chylch Ti a Fi ynghlwm) erbyn diwedd 2021. Er gwaethaf effeithiau Covid-19 ar y cynllun bydd 43 Cylch Meithrin newydd wedi agor eu drysau ar draws Cymru erbyn tymor yr Hydref 2021. Mae cynlluniau i agor 12 Cylch Meithrin ym 4ydd flwyddyn o'r cynllun eisoes ar waith fel ymateb i Raglen Waith 'Cymraeg 2050' a gyhoeddwyd ar Orffennaf 14.

**Rydym yn croesawu canfyddiadau'r adolygiad bod "cefnogaeth eang a chadarn i Gynllun SAS ac i'r gwaith sydd wedi ei gyflawni ers ei sefydlu. Mynegyd gwerthfawrogiad cyffredinol o ansawdd, cyflawniadau ac ymroddiad aelodau staff SAS ar hyd y daith".**

**Mae'r adolygiad yn adeiladol ond mae hefyd wedi adnabod bod nifer o heriau yn wynebu Cylchoedd Meithrin newydd e.e. denu niferoedd o blant sydd eu hangen i fod yn gynaliadwy, recriwtio staff cymwys gyda sgiliau iaith Gymraeg hanfodol a'r gwaith a chyfrifoldeb sydd gan y pwyllgorau rheoli. Mae'n bwysig pwysleisio bod yr heriau yma yn wynebu pob Cylch Meithrin yng Nghymru, ac mai cefnogi Cylchoedd i oresgyn yr heriau yma er mwyn gallu cynnig gofal ac addysg cyfrwng Cymraeg o safon uchel ydi gwaith craidd y Mudiad.**

Rydym yn derbyn pob un o argymhellion yr adolygiad, ac mi fyddwn yn rhoi newidiadau ar waith ar gyfer Blwyddyn 4 o'r cynllun (2021/22). Byddwn hefyd yn trafod yr argymhellion gyda Llywodraeth Cymru a gyda'n partneriaid eraill er mwyn sicrhau llwyddiant cynllun SAS yn y dyfodol.

fu'n gyfrifol gyda chefnogaeth eraill, i sefydlu yn gyntaf, Papur Llafar y Deillion Caerfyrddin a'r cylch yn 1976 ac ymhen tair blynedd, dechreuwyd Cynllun Casetiau Cymraeg. Nid yn unig bu Rhian yn un o sylfaenwyr y mentrau hyn, ond hi hefyd fu'n ben-



## CYLCHGRAWN CYW

"Hoffwn dynnu eich sylw i Gylchgrawn Newydd Cyw. Cyw a'i ffrindiau yw sêr y cylchgrawn lliwgar hwn, ac ynddo ceir 48 tudalen yn llawn dop o weithgareddau hwyliog (ac addysgol) ar gyfer plant ifanc hyd at 6 oed.

Mae cyfle i ddysgu am lythrennau a rhifau wrth chwarae, chwerrthin a dysgu. Mae storïau, syniadau am weithgareddau creadigol, cyfle i goginio (gyda help oedolyn wrth gwrs!) a llong lle o sticeri.

**Law yn llaw â'r cylchgrawn, mae gwefan arbennig sy'n cynnig cyfieithiad o'r holl gynnwys – yn rhoi cyfle i'r di-Gymraeg glywed storïau yn cael eu darllen yn y Gymraeg.**

Bydd rhifyn yr Hydref ar werth o 10 Medi ymlaen. **Pris y cylchgrawn yw £3.99 ac mae'n ymddangos yn dymhorol. Gellir tanysgrifio i dderbyn rhifyn bob tymor am flwyddyn am £15 (post am ddim) yn syth i'r cartref, sydd hefyd yn ei wneud yn anrheg delfrydol i blentyn bach!**

Gellir prynu copi o wefan Peniarth, <http://pth.cymru/siop-cyw-cylchgrawn> neu o'ch siop lyfrau lleol. Mae modd trefnu tanysgrifiad ar y wefan honno hefyd.

Hwyl ar y darllen!

## "Siarad Cyfrolau" – "Speaking Volumes"

Teitl llyfr yw'r uchod i gyfrol ddwyieithog gan Rhian Evans. Mae Llyfrau Llafar Cymru newydd gyhoeddi'r gyfrol mewn lansiad yn Yr Egin, Caerfyrddin ddiwedd Gorffennaf. Mae'n gyfrol arbennig gan mai Rhian ei hun,

naf gyfrifol am eu datblygu. Mae wedi parhau yn allweddol ac yn agwgrn cefn datblygiad Llyfrau Llafar Cymru ers ei sefydlu'n swyddogol yn 2011 pan orffennodd Cynllun Casetiau Cymraeg.

**Yn y gyfrol mae'n sôn am ei phrofiadau personol ac yna'n mynd rhagddi i roi hanes llawn am y datblygiadau a gwireddu ei breuddwyd i alluogi personau dall neu a nam golwg i wybod yr hyn sy'n digwydd yn eu hardal drwy wrando ar ddarllenwyr Papurau Bro o bob cwr o Gymru ac i fwynhau gwrandawr llyfrau a recordiwyd gan wirfoddolwyr yn stiwdio Tŷ Llafar, Caerfyrddin.**

Medrwn ddweud bod y ddau gynllun rhyngddynt, wedi recordio dros 2,500 o lyfrau sain, y mwyafrif yn y Gymraeg a nifer hefyd yn Saesneg. Yn gyfredol, mae 450 yn derbyn ein "llyfrau" yn rheolaidd heb unrhyw dal am y gwasanaeth, i "wrاندawyr" ledled Cymru.

**Mae'r gyfrol ar werth drwy aelodau'n Pwyllgorau am £5. Ond gellir ei archebu drwy'r post am £7 yn cynnwys cludiant. Danfonwch am eich archeb i: Tŷ Llafar, Adeilad 23, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SW31 3HB; neu ffonio'r Swyddfa: 01267 238225 neu trwy e-bost i: [llyfraullafarcymru@outlook.com](mailto:llyfraullafarcymru@outlook.com)**

Sulwyn Thomas (Cadeirydd Llyfrau Llafar Cymru)

Wynn Vittle (Ysgrifennydd)



# Hanes Adeilad Tŷ Tawe / Cornhill House 1855 - 2021 - Cartref i Iddewon a Chymry



\_Does dim sicrwydd beth yn union yw oed adeilad Tŷ Tawe ond mae'r "deeds" yn dyddio nôl i 1855 pan oedd y Parchedig Richard Calvert Jones yn rhoi prydles i David Rees er mwyn iddo adeiladu pedwar tŷ. Richard Calvert Jones oedd yr arloeswyr enwog ym maes ffotograffiaeth. Erbyn heddiw mae 2 adeilad: Cornhill Chambers a Cornhill house/ cottage/Tŷ Tawe.

Yn 1876 roedd y brydles wedi mynd i Andrew Melville, rheolwr theatr a hefyd John Lewis a Andrew Davies. Yng nghyfrifiad 1881 roedd 11 o deulu Melville yn byw yno gan gynnwys Alice Melville oedd yn wraig i gomediennne, ei chwech o blant, ei thad a theulu ei chwaer ond doedd Andrew Melville (y comedienne) ei gŵr ddim yno.

Yn 1891 dim ond Alice Melville a gweinyddes oedd yno. Mae'n werth nodi bod Tŷ Tawe yn agos iawn i'r Albert Hall a theatrau eraill yng nghanol y dref, felly doedd hi ddim yn bell i fynd i'r gwaith. Cafodd yr Albert Hall ei hagor yn 1864, yn neuadd gyhoeddus a neuadd gyngerdd, gyda lle i 2,500 ynddi.

Un o'r theatrau hynaf oedd y Palace. The Pavilion oedd yr enw arni o 1883 tan 1892, yna The Empire tan 1900 ac o hynny

ymlaen The Palace. Cafodd Theatr y Grand ei hagor ar y 26ain o Orffennaf, 1897 gan y gantores Adelina Patti. Agorwyd yr Empire Theatre yn Stryd Rhydychen yn 1900. Yn 1914 agorwyd sinema'r Carlton, y drws nesaf i'r Empire.

Mae siop lyfrau Waterstone yno'n awr. Erbyn y cyfrifiad yn 1901 roedd y pen-naeth Mary Davies yn rhentu ystafelloedd i sawl person gan gynnwys saer, peiriannydd morol, peiriannydd trydan, arolygydd nwy ac ati. Yn 1911 roedd y Cynol Raleigh Grey a William Richard Calvert Jones wedi gwerthu'r adeilad i William Mansel.

Yn 1915 dechreuodd cyfnod newydd i Cornhill Cottage pan oedd Ymddierdolwyr o'r gymuned Iddewig wedi ei gymryd e drosodd fel synagog ac ysgoldy. Yr Ymddierdolwyr oedd Abraham Freedman, Lewis Palto, Jacob Plosker, Harry Glass, Levy Goodhall, Walter Hyman a Harry Jackson. Yn Abertawe roedd y gymuned Iddewig hynaf yng Nghymru, er bod un Caerdydd yn fwy niferus.

Cyn hyn roedd gan synagog Abertawe, yn Goat Street, *mikvah* bach, ac roedd y symud i Cornhill yn rhoi mwy o le. Yn y selar roedd y *mikvah*, baddonau i fenwyd ymdrochi, a byddai cywion yn y

iard er mwyn iddyn nhw gael eu ladd mewn dull Kosher.

Pan agorodd Tŷ Tawe roedd ffenestr hanner ffordd lan y grisiau oedd yn cael ei defnyddio gan y gwasanaeth Iddewig pan oedd nhw'n chwythu yr utgorn.

Yn 1939 roedd Cofrestr ar ddechrau'r rhyfel yn cael ei chadw ac yn 1939 roedd

Elizabeth Austin yn byw yno fel gofalwraig.

Yn y 50 degau hwyr adeiladwyd synagog newydd yn Ffynhonnau felly yn 1957 gwerthwyd yr adeilad i National Registers fel gweithdy. Ar Ionawr 9fed 1987 prynodd yr Ymddierdolwyr John

Thomas, Heini Gruffudd, Jonathan Edwards a Roderick Evans yr adeilad ar ran Pwyllgor Tŷ Tawe am

£42,000. Mae'n bosib iawn bod gwerth yr adeilad yn nes at hanner miliwn heddiw.

Eleni bydd Cymdeithas Tŷ

Tawe yn newid ei statws cyfreithiol i fod yn C.I.O.

(Charitable Incorporated Organisation) . Bydd hyn yn

sicrhau na fydd unrhyw rwymedigaeth ariannol gan yr ymddierdolwyr.

Mae eleni wedi bod yn un heriol i Dŷ Tawe fel i sawl sefydliad arall gan fod dim incwm o'r siop, rhentu ystafelloedd na'r bar ond fel dywedodd rhywun:

RYDYN NI YMA O HYD !

Mae'r argoelion yn gwella erbyn hyn. Diolch i grant y Llywodraeth, a weinyddir gan

Gyngor Abertawe, cafodd Tŷ Tawe arian i oroesi cyfnod gwaetha'r pandemig, ac

erbyn hyn mae' siop ar agor 5 diwrnod yr wythnos. Mae'r Fenter laith wedi bod yn

weithgar iawn dan arweiniad y prif swyddog, Tomos Jones a'i staff, ac mae

gobaith y bydd y Ganolfan yn gallu gweithredu'n groesawgar erbyn mis Medi.

Diolch i Catrin Rowlands, Cadeirydd Tŷ Tawe, a Rhian Jones, yr Ysgrifennydd,

mae Clwb Cefnogwyr Tŷ Tawe erbyn hyn yn denu incwm sylweddol. Mae croeso i

bawb ymuno, wrth gwrs. Mae bore coffi yno bob bore Sadwrn, ac

mae Capel Gomer yn cwrrd yno bob prynhawn Sul. Mae digwyddiadau eraill wedi

cael eu trefnu ar gyfer mis Medi, gan gynnwys Mei Gwynedd a Huw Dylan.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at gael blwyddyn lwyddiannus.

Jaci Gruffudd  
Trysorydd Tŷ Tawe

# Atgofion Menna Lewis Swyddog Rhanbarth o weithgareddau Merched Y Wawr Rhanbarth Gorllewin Morgannwg dros y flwyddyn diwethaf .

**Chi ar miwt!** Sawl gwaith glywson ni'r gri yna dros y flwyddyn ddiwetha'. A chwerthin bob tro!

Daeth tro ar fyd gyda chyfarfodydd Merched Y Wawr yn ymuno ar zoom a ninnau'n cyfarwyddo â gweld wynebau

au, Dathlu'r 50, Gwasanaeth Nadolig, llwyau caru a llawer llawer mwy. Ac roedd croeso i holl aelodau'r rhanbarth i ymuno yn y digwyddiadau hyn. Llwyddodd y Grŵp Trafod Llyfrau i gyfarfod ar zoom a'r Grŵp Camu



'Mlaen i fynd ar deithiau yn yr ardal gan ddilyn canllawiau'r llywodraeth Dechreuwyd cynnal nosweithiau rhanbarthol

aelodau mewn bocsys bach twt ar y sgrîn. Er gwaetha'r cyfnod Covid anodd, fe lwyddodd y mudiad i gadw

wedyn- o Mererid Hopwood i Betsan Powys, i Adam yn yr ardd a Kevin a'i flodau! O Dorian Morgan a'i deithiau i Maralyn Samuel a'i nofelau ! Rhywbeth at ddant bach o bawb!



Ac yn Genedlaethol, doedd dim stop ar y mudiad. Ffeiriau Nadolig, Cwis hwyll, rhifynnau swmpus o'r

fynd gan droi at y Cyfryngau Cymdeithasol a Thechnoleg i wrando ar amrywiaeth o siaradwyr a chyfranwyr. Yn wir, ambell wythnos, roedd hi'n anodd dal lan gyda'r holl ddigwyddiadau a rhaid oedd dewis a dehol!

Llwyddodd sawl cangen i gynnal nosweithiau zoom gyda thestunau fel Am dro o amgylch y Bont, Hanes Merched Caerfyrddin, Trysorau aelod-

Wawr, podlediadau, ffonio ffrind, cyrsiau Crefft yn ogystal â'r ffeiriau a gwyliau rhithiol. Gallwn fynd 'mlaen a 'mlaen.

Ac fel 'na fu hi dros y flwyddyn ryfedd hon. Bel-lach mae rhai canghennau yn cwrdd wyneb yn wyneb ac yn mwynhau cwrdd i fynd am dro, i drafoed



llyfrau neu dros banded a chacen. Mae'n syndod sut mae pawb wedi addasu dros y flwyddyn a dod i arfer â ffordd newydd ddieithr o gyfathrebu ond 'ni 'ma o hyd' a bwrw 'mlaen sy' raid!

Cofiwch gallwch ymuno â'r mudiad, mae croeso i aelodau newydd bob amser. Cysylltwch â Mererid Morgan, [merer-id13@icloud.com](mailto:merer-id13@icloud.com) neu trwy ffonio 01792895172





**MORRISTON RFC MALE VOICE CHOIR**  
**CÔR MEIBION CLWB RYGBI TREFORYS**



**Arweinydd: D. HUW REES B.**  
**Mus (Hons)**

**Arweinydd: D. HUW REES B. Mus (Hons)**



**Ydy chi'n mwynhau canu?**  
**Ydy chi am ofalu am eich lles?**  
**Ydy chi'n mwynhau cymdeithasu?**  
**Ydych chi'n cefnogi achosion da?**

***Chwilio am rywbeth newydd i wneud?***

**Yna beth am ymuno gyda'r côr enwog a**

**llwyddiannus yma**

**Am fanylion pellach cysylltwch â ysgrifennydd y**  
**côr**

**Robert Harwood 01792 771957**

**Ebost [info@morrisonrfcmalechoir.co.uk](mailto:info@morrisonrfcmalechoir.co.uk)**

**[www.morrisonrfcmalechoir.co.uk](http://www.morrisonrfcmalechoir.co.uk)**

**BETHEL a TRINITY Sgeti**

Mae cyfarfod bob bore Sul bellach am 10.30yb yn Trinity, Sgeti.

Ar hyn o bryd dylid cofrestru cyn mynychu'r Oedfa - mae hynny'n ddi-gon rhwydd,

cysylltwch â'r Gweinidog, y Parchg. Jill-Hailey Harries ar E-bost:  
[jill.harries@btinternet.com](mailto:jill.harries@btinternet.com)

CROESO.

## Twll Gorau


Cyhoeddodd un o gymeriadau bywiog a hwyliog Tŷ Tawe, un o Gymry brwd ardal Abertawe gyfrol hanner hunangofiannol a hanner ffuglenol yn ddiweddar. Mae A Better Hole, gan Robin Campbell, yn adrodd hanes dychmygol criw o gyfeillion ifanc a'u magwraeth direidus a hwyliog yn Noc Penfro. Ffuglen, ond wedi ei seilio ar atgofion plentyndod.

Ynddo cawn hanes y plant yn eu cymuned Gymreig yn y cyfnod ôl-ryfel a'u hanturiaethau doniol a thrist wrth iddynt adeiladu ffau, neu geisio nofio (yn aflwyddiannus) ar draws y cei, a wynebu bygythiad rhai o drigolion yr ardal nad oedd mor glên ac yr hof-fem ei gofio.

Gwyr darllenwyr Wilia sydd yn adnabod Robin am ei ffraethineb ac mae'r llyfr yn llawn ohono, o'r dechrau hyd y diwedd. Yn wir, nid Forward a gawn, ond Forewarn! A dechreu'r gyfrol gyda'i atgofion o'r "dyddiau da" pan oedd pawb yn gadael eu drws ffrynt yn agored ac erbyn i chi gyrraedd adref roedd y lleidr yno yn gwneud disgled iddo'i hun! A chyda tro fach yn y cynffon cawn fam Robin "And that was fair enough."

Deil y digrifwch hwn drwy'r holl gyfrol, ond daw neges gref am niwed rhyfel a hed-dychiaeth yn amlwg hefyd.

Os ydych chi'n cofio chwarae 'splits' gyda chylllell boced, neu'n cofio rhedeg i'r siop gyda cheiniogau'ch mam i hel neges, ac yn mwynhau hanesion o ddiweidi diniwed, dyma'r llyfr ar eich cyfer chi. Ewch i'w brynu!



# Tro ar ein byd!

gan Martin Jones

siaradwyr Cymraeg a'n hiaith cyfathrebu yw'r Gymraeg. Mae ymuno â'r Gymdeithas wedi agor drysau Cymraeg eraill i ni. Er enghraifft cael mynd i nifer o

brwdfrydig yn ein cymuned ac mae miloedd yn gorffen eu hail flwyddyn pob blwyddyn. Yr adeg yma o'r flwyddyn yw'r amser mae llawer o'n dysgwyr yn mynd ar goll i'r iaith. Dyma ateb syml i'r broblem flynyddol yma ac mae manteision eraill hefyd. Dychmygwch gronfa o ddysgwyr ym mhob ardal ble mae dosbarth nos, mae'r dysgwyr sydd yn eu dilyn nhw yn cael lle i fynd i gael ymarfer siarad gyda chyfeillion sydd wedi bod trwy'r un profiad o ddysgu, ac wedi llwyddo. Bydd Merched y Wawr yn gallu cadw cysylltiad hawdd â nhw a bydd Cymdeithas Edward Llwyd yn gallu rhoi gwahoddiad iddyn nhw pan mae taith maes yn eu hardaloedd. Os mae rhywun eisiau dechrau clwb darllen, côr, clwb hanes lleol, unrhyw fath o grŵp ddi-ddordeb, mi fydd digon o oedolion brwdfrydig ar gael i wneud hynny. A mwy, a mwy bob blwyddyn o hynny ymlaen.

Mae mor syml, a rŵan yw'r amser gorau. Mae ein hiaith angen gwaed newydd ar frys!



## Yn hapus i gyfarfod unwaith eto yn Southgate

Dydwi ddim yn meddwl fy mod i'n gor-ddweud pan rydw i'n dweud bod ein cyfarfodydd wythnosol yn y caffi lleol (Siop Goffi'r Tri Chlogwyn) wedi newid fy mywyd! Efallai bod hyn yn swnio tipyn yn anghredadwy, ond mae'n hollol wir achos bod y cyfarfodydd wedi fy helpu i a fy ffrindiau ddod o hyd i'r bont i'r gymuned Gymraeg.

### UGAIN PERSON

Yn wreiddiol, dim ond dau neu dri ohonon ni'n sgwrsio rhwng dosbarthiadau oedd y cyfarfodydd. Ond dros amser - a chyda chefnogaeth perchenogion y caffi (Jamie a Jodie) ac, am sbel, Menter iaith Abertawe - tyfodd y grŵp nes bod rhyw ugain person ynddo fe, a hyd at bymtheg person yn dod i'r caffi bob wythnos. Roedd cwrdd â phobl eraill a sgwrsio yn y Gymraeg bob wythnos yn wych. Ond dim ond hanner y stori oedd hyn - achos roedd canlyniadau annisgwyl hefyd. Roedden ni'n synnu faint o ddefnyddwyr y caffi - o'n pentref ni neu ymwelwyr - oedd yn siaradwyr Gymraeg. Ac roedd y siaradwyr hyn yn synnu at glywed pobl yn siarad Cymraeg. Ond roedden nhw'n falch iawn, ac yn dod draw i gael sgwrs â ni.

### RHAN O'R GYMUNED GYMRAEG

Ond, yn ogystal â hyn, dwedodd Cymraes, a oedd wedi ymuno â'r grŵp, wrthon ni am Gymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt. Mae saith ohonom ni wedi ymaelodi, heb amheuaeth, o ganlyniad i ddod yn aelodau o'r Gymdeithas rydym ni wedi dod i deimlo ein bod yn rhan o'r gymuned Gymraeg yn Abertawe. Nid yn unig o ganlyniad i fynd i gyfarfodydd y Gymdeithas, ond hefyd achos ein bod ni wedi dod i adnabod nifer o

ddigwyddiadau Cymraeg: teithiau, prydau o fwyd, gemau criced, ac yn y blaen.

### SEISNIGEIDDIO

Yn y gorffennol, doedd y Cyngor Cymuned leol ddim am gefnogi'r syniad o sefydlu grŵp sgwrsio Cymraeg yn yr ardal, achos - medden nhw - doedd dim siaradwyr Cymraeg yma. Ond mae ein grŵp sgwrsio wedi dangos, hyd yn oed mewn ardal wedi'i Seisnigeiddio fel Pen-nard a Southgate, cymaint o siaradwyr Cymraeg sydd ym mhob man - llawer mwy, rydw i'n meddwl, na mae pobl yn sylweddoli.

### BYD CYMRAEG GO IAWN

Mae'r Gymraeg yn dipyn o gyfrinach ac mae hyn yn broblem, ond yn ein ffordd ddiiniwed rydym ni wedi dod ar draws un ateb. Wrth i bobl glywed dau neu dri o ddysgwyr yn siarad Cymraeg yn y caffi lleol pob wythnos mae hynny wedi denu llawer mwy i'n plith. Yn ei dro mae hynny wedi sicrhau ein bod ni yn rhan o'r byd mawr Gymraeg go iawn ac yn rhan bwysig o'r gymuned Cymraeg lleol.

### DYSGWYR BRWDFRYDIG

Does dim angen llawer o ddychymyg i ddeall gall yr un peth ddigwydd dros Gymru gyfan. Yr unig beth sydd rhaid gwneud yw sicrhau bod ein dysgwyr, yn enwedig y rhai yn eu blwyddyn olaf, yn cael y syniad yma. Bydd ein dysgwyr brwdfrydig ni yn sicr o weld bydd y fath beth yn cadw nhw yn y byd Cymraeg a thynnu sylw'r Cymry Cymraeg atyn nhw.

Mae gwir angen mwy o oedolion

## Calendr Abertawe 2022

Bydd Calendr Abertawe'n ymddangos eto eleni, ar gyfer 2022. Chafodd y calendr ddim ei gyhoeddi eleni, am fod ysgolion ar gau ddiwedd 2020, a chymdeithasau Cymraeg ddim yn cwrdd.

Menter iaith Abertawe a Thy Tawe fydd yn cyhoeddi'r calendr eleni.

Cafodd y calendr ei gyhoeddi gyntaf pan ddaeth Eisteddfod yr Urdd i Abertawe yn 2011. Co-dodd y calendr £3,000 i'r Eisteddfod honno.

Wedi hyn bu Wilia'n ei gyhoeddi, a rhannwyd yr elw rhwng Wilia a'r gwerthwyr. Rhwng pawb, gwnaed tua £1,500 a £2,000 o elw'n flynyddol.





## Digwyddiadau byw yn Nhy Tawe ym mis Medi

Rydym yn falch iawn i gyhoeddi bod cerddoriaeth fyw yn dychwelyd i Dŷ Tawe!


Gyda'r sengl "Dyddiau Gwell i Ddod" wedi ei rhyddhau eleni a LP newydd i ddilyn, edrychwch ymlaen at groesawu Mei Gwynedd yn ôl i Dŷ Tawe.

Ty Tawe: 9 Christina Street Abertawe

Nos Wener, Medi 10, 2021

Nos Wener, Medi 24, 2021

Brysiwch i archebu tocynnau—bydd y nifer yn gyfyngedig i reolau Covid ar y pryd.



## Pwyllgor Rheoli Menter Iaith Abertawe

Ydych chi'n byw yn Abertawe, neu â chysylltiadau i'r ardal, ac yn angerddol dros y Gymraeg?

Mae Menter iaith Abertawe yn croesawu ceisiadau i ymuno â phwyllgor rheoli'r Fenter.

Mae'r pwyllgor yn cwrrd bob deufis i drafod gweithgareddau'r Fenter, materion ariannol, cymeradwyo polisïau, materion staffio a derbyn gwybodaeth ar gynnydd yn erbyn targedau.

E-bostiwch [swyddfa@menterabertawe.org](mailto:swyddfa@menterabertawe.org) am fwy o fanylion.

DEWCH DRAW AM SGWR A PHANEDI  
CROESO I DDYSGWYR A SIARADWYR RHUGL!

SPEAK WELSH IN AN INFORMAL SETTING. SESSIONS FREE OF  
CHARGE. COME ALONG FOR A CHAT AND A CUPPA!

MENTER IAITH ABERTAWA | BHFIF CŴMNI: 06493822